# Y Pwyllgor Materion Ewropeaidd ac Allanol

## EUR(2) 02-06 (p2)

| | |
|---|---|
| **Dyddiad:** | **9 Mawrth 2006** |
| **Amser:** | **09.00 – 12.00** |
| **Lleoliad:** | **Committee Room 3, Senedd, Bae Caerdydd** |
| **Teitl:** | **Gwaith Cymdeithas Seneddol y Gymanwlad** |

**Cefndir**

1. Mae Cymdeithas Seneddol y Gymanwlad yn bodoli i hyrwyddo gwybodaeth a dealltwriaeth am ddemocratiaeth seneddol, gyda chyfeiriad penodol at wledydd y Gymanwlad, ac i hybu ymhellach gyd-weithredu ac ymgynghori rhwng Seneddau'r Gymanwlad. Mae'n cyflawni hyn trwy'r gweithgareddau canlynol:

- Cynadleddau, seminarau, gweithdai a digwyddiadau hyfforddi
- Cyhoeddiadau
- Darparu gwybodaeth
- Ymweliadau seneddol

**Gweithgaredd Cangen Cymru o Gymdeithas Seneddol y Gymanwlad**

2. Mae holl Aelodau'r Cynulliad yn aelodau o Gangen Cymru o Gymdeithas Seneddol y Gymanwlad. Bydd Pwyllgor Gweithredol y Gangen yn cael ei ethol bob blwyddyn. Caiff pob Aelod wybod am gynadleddau, seminarau a gweithgareddau sydd i ddod gan y CSG a gwahoddir hwy i fynegi diddordeb mewn mynychu. Mae disgwyl i rai sy'n mynychu'r gweithgareddau adrodd eu hanes wrth y Cynulliad trwy wefan CSG ar Fewnrwyd y Cynulliad. Hefyd caiff adroddiadau eu cynnwys yn newyddlen Cangen Cymru a anfonir i bob Aelod o'r Cynulliad bob tymor. Mae Aelodau hefyd yn cael copïau o gylchgrawn seneddol chwarterol CSG sef y Parliamentarian.

**Gweithgareddau Rhyngwladol**

3. Bydd aelodau o bob plaid yn parhau i gymryd mantais o’r cyfleoedd ar gyfer eu datblygiad personol a phroffesiynol a ddarperir gan seminarau seneddol a chynadleddau rhyngwladol, rhanbarthol ac arbenigol y CSG. Anfonodd y Cynulliad gynrychiolwyr i amrywiaeth o ddigwyddiadau yn ystod 2005 gan gynnwys:

- Mynychodd Janet Ryder y pedwerydd Seminar Seneddol yng Nghanada ar y pwnc Strengthening Democracy and the Role of Parliamentarians: Challenges and Solutions
- Mynychodd Alun Cairns 51fed Cynhadledd Seneddol y Gymanwlad a drefnwyd gan Gangen Ynysoedd Fiji.
- Mynychodd John Marek, John Griffiths, Mike German a Rhodri Glyn Thomas 35ed Cynhadledd Ranbarthol Ynysoedd Prydain a Gwledydd y Canoldir yn Jersey.

Yr oedd Cangen Cymru hefyd yn falch iawn o noddi Kelly Bending, myfyrwraig gradd o Abertawe ac aelod o Bwyllgor Rheoli’r Funky Dragon, i gymryd rhan yn Senedd Ieuenctid y Drydedd Gymanwlad yn Brisbane, Awstralia.

## Lesotho

4. Mae Cangen Cymru wedi penderfynu rhoi canolbwynt i’w gweithgareddau rhyngwladol trwy geisio datblygu cysylltiadau dwyochrog gyda gwlad arall o fewn y Gymanwlad. Mae cysylltiadau ers peth amser rhwng Cymru a Lesotho ac yn Hydref 2005 ymwelodd John Griffiths a Mike German â Lesotho i drafod y posibilrwydd o berthynas gytbwys agosach rhwng y ddwy ddeddfwrfa. O ganlyniad mae’r Gangen yn datblygu cynigion i gynorthwyo’r broses ddiwygio seneddol yn Lesotho gan gynnwys rhaglen waith ac ymweliadau astudio ar lefel Aelodau a swyddogion rhwng y ddau Gynulliad.

## Ymweliadau

5. Mae Cangen Cymru yn rheolaidd yn croesawu ymweliadau gan wledydd a thaleithiau eraill o fewn y Gymanwlad. Gan ei bod yn un o sefydliadau democrataidd mwyaf newydd y byd a’i bod yn gwneud defnydd helaeth o dechnoleg fodern, mae seneddwyr eraill yn dangos diddordeb mawr yn y Cynulliad Cenedlaethol. Mae agoriad diweddar y Senedd yn debygol o gynyddu’r diddordeb mewn ymweld â’r Cynulliad. Ymhlith yr ymweliadau yn 2005 yr oedd:

- Ei Fawrhydi y Tywysog Seeiso o Lesotho, yr Uchel Gomisiynydd i’r DU
- Y Llefarydd ac Arweinwyr y Pleidiau o Senedd Sri Lanka
- Y Llefarydd a phum Aelod o Senedd Ddeddfwriaethol Tonga
- Cynrychiolwyr o Seminar Seneddol San Steffan gan gynnwys Llefarwyr o Perlis (Malaysia), De Cymru Newydd a Gorllewin y Penrhyn (De Affrica) a Llywydd y Senedd yn Trinidad a Tobago
- Prif Ustus Lahoti o Lys Goruchaf yr India
- Cynrychiolaeth o blith arweinwyr eglwysig o Lesotho

## Diwrnod y Gymanwlad

6. Mae Cangen Cymru yn dathlu Diwrnod y Gymanwlad bob blwyddyn gan weithio’n agos gyda Gwasanaeth Addysg y Cynulliad i roi rhaglen lawn o weithgareddau i hyd at 60 o blant ysgol. Elfen boblogaidd iawn o’r diwrnod yw sesiwn "Hawl i Holi" gydag Aelodau’r Cynulliad yn y Siambr, sy’n cynnwys cwestiynau ar rôl y Gymanwlad. Mae dathliad Dydd y Gymanwlad eleni ar 15 Mawrth wedi gweld yr ymateb mwyaf eto gan ysgolion, gyda dros 300 o ddisgyblion yn ymgeisio am y 60 lle sydd ar gael. Bydd disgyblion o bob un o’r pum rhanbarth etholaethol yn mynychu am y tro cyntaf yn hanes y digwyddiad.

## Cynllun Noddi

7. Ym mis Mai 2005 lansiodd Cangen Cymru gynllun noddi i alluogi Aelodau i ymweld â gwledydd eraill y Gymanwlad ar gyfer datblygiad proffesiynol neu ymchwil. Yr Aelod cyntaf i gael budd o’r cynllun oedd Jenny Randerson a ymwelodd â Chanada i ymchwilio i weithrediad deddfwriaethau dwyieithog a’r arfer o wneud cyfreithiau dwyieithog yng Nghanada. Mae ceisiadau eraill yn cael eu hystyried ar hyn o bryd.

## Dyfodol

8. Mae rôl Cangen Cymru o Gymdeithas Seneddol y Gymanwlad yn datblygu’n gyson. Mae croeso mawr wedi bod yn ddiweddar i’r pwyslais ar ddatblygu cysylltiadau rhyng-seneddol hir gyda Lesotho a chefnogi Aelodau trwy’r Cynllun Noddi. Byddai Cangen Cymru yn croesawu barn Aelodau am y gweithgareddau a ddisgrifiwyd uchod ac awgrymiadau ar gyfer ei gyfeiriad yn y dyfodol.

**Person i gysylltu ag ef**
**Andrew Chambers**
**Gwasanaethau Siambr**